

Cau Ffyrdd IRONMAN 70.3 Abertawe — Dydd Sul 12 Gorffennaf 2026

Bydd ffyrdd wedi'u cau dros dro ar ddiwrnod ras IRONMAN er mwyn sicrhau diogelwch athletwyr a'r cyhoedd. Gweithredir cau'r ffyrdd hyn yn gyfreithiol o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994, ac maent yn berthnasol i bob cerbyd, beic a cheffyl nad ydynt yn rhan o'r digwyddiad. Ymddiheurwn am yr anghyfleustra a achoswyd gan gau'r ffyrdd.

- Osgowch barcio ar y cwrs beic am resymau diogelwch, os gwelwch yn dda.
- **GALL** cerddwyr groesi'r cwrs ar unrhyw adeg pan fydd yn ddiogel i wneud hynny.
- Bydd mynediad hanfodol i ofalwyr yn cael ei hwyluso, rydym yn gofyn i chi drefnu hyn ymlaen llaw cyn 8 Gorffennaf er mwyn lleihau oedi. Cysylltwch â swansea70.3roadaccess@ironman.com
- **NID OES UNRHYW GYFYNGIADAU** ar unrhyw adeg i unrhyw un o'r Gwasanaethau Brys.
- Gweler y map am wybodaeth fanwl a llwybrau dargyfeirio posibl.
- Gall ffyrdd fod ar agor yn gynharach na'r hyn a hysbysebwyd.

Ymholiadau Mynediad - 03330 11 66 00 neu swansea70.3roadaccess@ironman.com Ymholiadau Cyffredinol E-bost — swansea70.3@ironman.com

ARDAL	CAEADAU	MANYLION
Y Mwmbwls	06:00 - 10:00	Mae'r cwrs yn dilyn yr arfordir ar Heol y Mwmbwls heibio i Bier y Mwmbwls ac yn troi i'r dde ger Bae Limeslade y tu allan i Forte's Ice Cream i Lôn Plunch. Bydd Heol y Mwmbwls ar gau tua'r de DIM OND hyd at Lôn y Pentref rhwng 06:00-10:00. Bydd ceir yn gallu teithio tua'r gogledd o Lôn y Pentref (tuag at Abertawe) am gyfnod y cau. CYNGOR MYNEDIAD — Bydd gwriad unfordd i drigolion sydd angen mynediad. Bydd modd i drigolion deithio tua'r gorllewin ar y B4436, i'r chwith i Heol Murton Green, yna tua'r dwyrain ar Heol Mansfield, Lôn Murton a Heol Newton.
Newton (B4593), Llandeilo Ferwallt	06:30 - 10:30	Yna bydd y cwrs yn dilyn Lôn Plunch a Lôn Uwch cyn troi i'r chwith i'r Lôn tua'r De B4593/Heol Caswell trwy Newton yn pasio Traeth Bae Caswell. Yn dilyn Heol Caswell i'r Gogledd, gan droi i'r chwith i Heol y Pil/Heol Llandeilo Ferwallt ac i'r chwith i Heol Pennard B4436. Bydd y ffyrdd a enwir ar gau yn llawn rhwng 06:30 — 10:30.
Kittle, Murton	06:30 - 12:30 12:30 - 13:45	Mae'r cwrs yn parhau tua'r gorllewin ar hyd y B4436 i gyffordd Lôn Vennaway. Mae gan y rhan hon o'r cwrs gaeadau amrywiol gan fod beiciau'n defnyddio'r ffyrdd hyn wrth fynd allan a dod i mewn. Bydd y B4436 o Murton Green i Gyffordd Lôn Vennaway ar gau yn gyfan gwbl rhwng 06:30-12:30. Bydd yn agor tua'r gorllewin (tuag at Pennard) o 12:30 ac yn agor yn llawn ar gyfer traffig i'r ddau gyfeiriad erbyn 13:45.
Lôn Vennaway	06:30 - 13:30	Yn unol â'r uchod mae'r llwybr yn defnyddio Lôn Vennaway i'r ddau gyfeiriad yn ystod y digwyddiad. Bydd Lôn Vennaway ar gau yn gyfan gwbl 06:30-12:30 ac yna bydd yn agor ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd i droi i'r chwith ac i'r dde ar Ffordd De Gŵyr o 12:30. Bydd y ffordd yn hollol agored erbyn 13:30.
Pennard, Southgate	06:30 - 10:45	Mae'r cwrs yn dilyn Heol Pennard trwy Kittle a Phennard cyn gwneud tro pedol yn Southgate y tu allan i Gaffi'r Tri Chlogwyn. Yna mae'r beiciau'n teithio yn ôl trwy Pennard ac yn troi i'r chwith i Lôn Vennaway. CYNGOR MYNEDIAD — Caniateir gadael o Southgate/Pennard tuag at Kittle tan 06:30 a chaniateir mynediad o Kittle i Southgate/Pennard ar ôl 10:45. Caniateir gadael tuag at Gilâ Uchaf ar ôl 12:15.
Melin y Parc, Penmaen, Nicholaston, Reynoldston	07:00 - 12:30 07:00 - 13:00	Mae'r cwrs yn dilyn yr A4118 trwy Felin y Parc , Penmaen, Nicholaston. Bydd yr A4118 ar gau hyd at gyffordd Reynoldston rhwng 07:00 - 12:30. Yna mae'r cwrs yn teithio i'r Gogledd tuag at Reynoldston cyn troi i'r dwyrain i Cilibion a fydd ar gau yn gyfan gwbl rhwng 07:00-13:00.
Llanrhidian, Penuel, Y Crwys	07:30 - 11:30 07:00 - 12:00	O Cilibion mae'r cwrs yn teithio i Lanrhidian sydd ar gau rhwng 07:30-11:30. Yna mae'r llwybr yn teithio tua'r dwyrain drwy Penuel ac ymlaen at Y Crwys, cyn mynd tua'r de ar Heol Tirmynydd, bydd y rhan hon o'r cwrs ar gau yn gyfan gwbl rhwng 07:30 - 12:00.
Cilâ Uchaf, Llangrove, Lunnon, Llanilltud Gŵyr, Llethryd	07:30 - 13:00 07:00 - 13:30	Mae'r cwrs beicio yn cynnwys un dolen allanol fwy ac ail ddolen fewnol lai sy'n teithio drwy Llethryd ar y B4271 a fydd ar gau rhwng 07:30-13:00. Bydd Ffordd De Gŵyr A4118 o gyffordd Cilâ Uchaf i Lôn Vennaway ar gau tua'r de rhwng 07:00-13:30. CYNGOR MYNEDIAD - Bydd croesfan tua'r gogledd ar gael ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd ar Ffordd De Gŵyr tuag at Gilâ Uchaf fel y dangosir ar y map.
Comin Clyne, West Cross	08:30 - 13:45	Bydd yr athletwyr yn gorffen y cwrs beicio trwy ddilyn y B4436 (Comin Clyne) tua'r dwyrain cyn troi i'r dde ar Heol Fairwood drwy West Cross. Bydd y beiciau'n parhau i lawr y bryn ar Heol Fairwood ac yn troi i'r chwith i'r A4067 i ddychwelyd i Ganol Dinas Abertawe. Bydd Comin Clyne o Heol Fairwood - Murton Green ar gau tua'r dwyrain o 08:30 - 13:45. Bydd Heol Fairwood ar gau tua'r dwyrain o 08:30-13:45. CYNGOR MYNEDIAD - Bydd mynediad i breswylwyr ar gael tua'r gogledd (i fyny'r bryn) ar Heol Fairwood drwy gydol y dydd, ynghyd â man croesi ar gyffordd Heol Fairwood/Heol Mayals ar gyfer ceir sy'n teithio tua'r gogledd tuag at Kittle.

